



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 23AIN MEDI, 2020** am **5.00 PM**.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGANIAD O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2020, yn rhai cywir.

5 - 14

LLYWODRAETHU AGORED:

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu

Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Derbyn cwestiynau gan yr Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

15 - 20

6. DIWEDDARIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS MEWN RHCT

Derbyn datganiad sefyllfa mewn perthynas â'r Coronafeirws yn y Fwrdeistref Sirol.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7. RHAGLEN WAITH Y CYNGOR 2020-21

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21

21 - 34

8. RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto a G Holmes:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn galw ar Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ar gyfer sectorau penodol yn y diwydiant awyrennau er mwyn diogelu'r sgiliau a'r swyddi gwerthfawr iawn yn RhCT ac ar draws Cymru a'r DU yn y dyfodol.

Rydyn ni'n annog Llywodraeth y DU i ddarparu lefelau cyllid sydd gymesur â phwysigrwydd strategol y sector awyrennau ac i wneud hynny ar unwaith, er mwyn helpu'r sector trwy'r cyfnod heriol yma ac i osgoi colli swyddi a sgiliau yng nghwmni General Electric yn Nantgarw, British Airways yn Llantrisant, a safleoedd awyrennau eraill ar draws Cymru a'r DU; yn ogystal â'r miloedd o swyddi sydd yn y gadwyn gyflenwi ehangach.

Rydyn ni'n credu bod gan y sector awyrennau ddyfodol disglair ac os nad yw Llywodraeth y DU yn gweithredu, bydd yna effaith economaidd a

chymdeithasol ddinistriol ar y cymunedau sydd wedi'u heffeithio, ond hefyd bydd colli'r swyddi arbenigol yma'n gosod diwydiant awyrennau'r DU dan anfantais gystadleuol wrth i'r broses adfer gychwyn.

Fodd bynnag, rhaid i unrhyw becyn buddsoddi hefyd ystyried newid yn yr hinsawdd a gollyngiadau carbon, rhaid i'r mesurau ysgogi yma ddarparu'r cyllid angenrheidiol er mwyn datblygu'r dechnoleg i leihau ôl-troed carbon ein diwydiant awyrennau.

Rydyn ni'n croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac yn galw ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i barhau i roi pwysau ar Weinidogion Llywodraeth y DU i gydnabod sefyllfa arbennig y sector awyrennau ac i weithredu er mwyn diogelu swyddi a sgiliau ar gyfer y dyfodol.

9. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor